Adran Gwaith a Phensiynau

# Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

## Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 121 8379** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cyfraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

### Y ffurflen hon

Mae'r ffurflen hon i wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer damwain:
- yn y gwaith, neu
- tra ar gynllun neu gwrs hyfforddi cymeradwy.

Ni allwch wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oeddech yn hunangyflogedig pan ddigwyddodd y damwain. Darllenwch y **BI100AW Notes** cyn llenwi'r ffurflen hon.

### Gwybodaeth bwysig am lenwi'r ffurflen hon

Atebwch bob cwestiwn sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â beiro, ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r Caniatâd yn Rhan 2 ac yn llofnodi'r Datganiad yn Rhan 12. Os na fyddwch yn llenwi hwn, byddwn yn cysylltu â chi a gallai achosi oedi gyda'ch cais.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i lenwi'r ffurflen gais hon, cyfeiriwch at y BI100AW Notes a ddaeth gyda'r ffurflen hon. Mae hwn yn esbonio'r holl ddogfennau y dylech eu hanfon â'r cais hwn am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Dylai hyn gynnwys:
- unrhyw slip cyflog ar gyfer cyfnod y ddamwain
- y ffurflen adrodd am ddamwain gan eich cyflogwr
- unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennych.

Gallwch anfon copi o unrhyw adroddiadau meddygol neu lythyrau sydd gennych eisoes i gefnogi eich cais. Nid oes angen i chi gael adroddiad meddygol newydd ar gyfer y cais hwn yn unig.

Efallai y byddwn yn eich gwahodd i fynychu asesiad meddygol gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Os oes angen ymweliad cartref arnoch, rhowch fanylion llawn pam fod angen un,ac anfonwch unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennych eisoes i gefnogi'r cais hwn. Peidiwch â gofyn na thalu am dystiolaeth newydd.

Os hoffech help i lenwi unrhyw ran o'r ffurflen gais hon, ffoniwch **0800 121 8379**. Gallwch ddod o hyd i'n holl fanylion cyswllt yn y nodiadau a anfonwyd gyda'r ffurflen hon.

## Rhan 1: Chi

Mae'n rhaid i bawb lenwi'r rhan hon

**01 Teitl**

Er enghraifft, Mr, Ms, Mrs, Miss neu arall.

**02 Cyfenw neu enw teuluol**

**03 Pob enw arall**

Yn llawn.

**04 Unrhyw gyfenwau eraill rydych wedi cael eich adnabod ganddynt neu rydych yn eu defnyddio nawr**

Cofiwch gynnwys enw cyn priodi, pob enw priod blaenorol a phob un newid enw teuluol.

**05 Cyfeiriad**

Cod post

**06 Rhif ffôn symudol**

**07 Rhif ffôn yn ystod y dydd**

Os oes gennych un.

**08 Cyfeiriad e-bost**

**09 Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**10 Rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau am eich budd-dal neu slipiau cyflog.

**11 Os nad ydych yn gwybod eich rhif YG, a ydych erioed wedi cael un neu wedi defnyddio un ar unrhyw adeg?**

- [ ] Na
- [ ] Ydw

## Dywedwch wrthym am eich partner

Rydym yn defnyddio partner i olygu:

- person rydych yn byw gyda nhw sy'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn bâr priod.

Os nad oes gennych bartner
**ewch i Rhan 2: Caniatâd.**

**12 Teitl eich partner**

Er enghraifft, Mr, Ms, Mrs, Miss neu arall.

**13 Cyfenw neu enw teuluol eich partner**

**14 Pob enw arall eich partner**

Yn llawn.

**15** **Cyfeiriad eich partner**

Cod post

**16** **Dyddiad geni eich partner**

DD/MM/BBBB

**17** **Rhif Yswiriant Gwladol (YG) eich partner**

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau am eich budd-dal neu slipiau cyflog.

## Rhan 2: Caniatâd

### Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd

Efallai y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy sy'n gweithio i DWP, angen mwy o wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch.

Gallent ofyn am wybodaeth berthnasol gan eich meddyg, neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall rydych yn dweud wrthynt amdano.

**18** **A ydych yn rhoi caniatâd i'ch meddyg neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill roi mwy o wybodaeth i'r DWP am eich cyflwr iechyd?**

- [ ] Na, ni ellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd â DWP na'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt.
- [ ] Ydw, mae modd rhannu gwybodaeth am fy iechyd â DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt.

### Sut mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon

Mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon i:

- prosesu eich cais
- gwneud penderfyniad ar eich hawl, neu unrhyw ailystyriaeth orfodol neu apêl a wnewch.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP gael, cadw, a defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae angen eich caniatâd ar eich meddyg (neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill y dywedwch wrth DWP amdanynt) i roi gwybodaeth i DWP. Os byddwch yn rhoi eich caniatâd, mae hyn yn rhoi gwybod iddynt eu bod yn cael rhannu'r wybodaeth hon yn gyfreithlon â DWP.

Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i'ch meddyg, meddyg ymgynghorol yn yr ysbyty, neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill am wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch. Mae hyn oherwydd ein bod yn gofyn am y wybodaeth i'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol.

Nid oes yn rhaid i chi roi eich caniatâd. Os na wnewch, bydd DWP yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd ganddynt eisoes, yn ogystal ag unrhyw beth y byddwch yn ei roi iddynt eich hun.

### Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â **0800 121 8379** a dweud eich bod am roi neu dynnu eich caniatâd yn ôl.

Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, ni all DWP gael gwybodaeth gan eich meddyg neu eraill a enwir ar eich ffurflen.

**Rwyf wedi darllen a deall y testun uchod.**

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Rhan 3: Llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi ar ran rywun arall

**Darllenwch dudalen 7 y BI100AW Notes**

Cwblhewch y rhan hon dim ond os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran yr hawlydd gan na allant wneud neu ei fod wedi marw.

**19** **Dywedwch wrthym pam na all yr hawlydd lenwi'r ffurflen eu hunain**

**20** **Os yw'r person wedi marw, dywedwch wrthym pryd y digwyddodd hyn**

DD/MM/BBBB

Anfonwch gopi o'r dystysgrif marwolaeth gyda'r ffurflen hon.

### Dywedwch wrthym amdano chi eich hun

**21** **Teitl**

Er enghraifft, Mr, Ms, Mrs, Miss neu arall.

**22** **Cyfenw neu enw teuluol**

**23** **Pob enw arall**

Yn llawn.

**24** **Beth yw'ch perthynas â'r hawlydd?**

**25** **Cyfeiriad**

Cod post

**26** **Eich rhif ffôn symudol**

**27** **Eich rhif ffôn yn ystod y dydd**

Os oes gennych un.

**28** **Eich cyfeiriad e-bost**

**29** **Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**30** **Eich rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau am eich budd-dal neu slipiau cyflog.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

## Rhan 4: Eich gwaith neu'ch cynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy

Dywedwch wrthym am eich swydd neu gynllun hyfforddi ar adeg y ddamwain hon.

**31** **Enw'r cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant ar adeg y ddamwain**

**32** **Cyfeiriad y cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant**

Cod post

**33** **Os yw'ch cyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant wedi newid ei enw neu gyfeiriad ers eich damwain, rhowch y manylion newydd i ni**

Cod post

**34** **Ym mha faes busnes y mae'r cwmni hwn yn gysylltiedig?**

**35** **A yw'r cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant hwn dal mewn busnes?**

- [ ] Na
- [ ] Ydy

**36** **Os oeddech ar gwrs hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy, pwy anfonodd chi arno?**

Er enghraifft, y Ganolfan Byd Gwaith neu sefydliad arall.

**37** **A oeddech wedi'ch cyflogi gan asiantaeth?**

- [ ] Na
- [ ] Oeddwn

**Os oeddech wedi'ch cyflogi gan asiantaeth rhowch eu henw a chyfeiriad**

Cod post

**38** **Rhif ffôn y cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant**

**39** **Cyfeiriad e-bost y cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant**

**40** **Gweithle**

**41** **Pryd wnaethoch weithio yno?**

Mae hyn yn golygu pan aethoch i'r gwaith. Os oeddech yn gyflogedig gan y cwmni ond i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch, nodwch y dyddiad yr aethoch i'r gwaith ddiwethaf. Os nad ydych yn siŵr o'r dyddiadau, rhowch ddyddiad bras.

DD/MM/BBBB

O

I

**42** **Teitl eich swydd**

**43** **Rhif cyflogres, staff neu rif gyfeirnod arall**

**44** **Os oeddech ar gwrs hyfforddi, pa fath o gwrs hyfforddi oeddech arno?**

## Rhan 5: Y ddamwain

Dywedwch wrthym am y ddamwain. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.

**45** **Ar ba ddyddiad ac am ba amser digwyddodd y ddamwain?**

Anfonwch eich slip cyflog atom ar gyfer y dyddiad hwn.

DD/MM/BBBB

Dyddiad

Amser

**46** **Ble yn y gwaith digwyddod y ddamwain?**

Dywedwch wrthym yn union ble y digwyddodd.

**47** **A ydych wedi rhoi gwybod am y damwain i'ch cyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant?**

Anfonwch gopi o adroddiad y ddamwain atom.

☐ Na

Dywedwch wrthynt am y ddamwain nawr.

☐ Ydw

Dywedwch wrthym enw'r person gwnaethoch roi gwybod iddynt am y damwain.

**48** **Os oeddech yn gyflogedig gan asiantaeth, a wnaethoch roi gwybod i'r asiantaeth o'r ddamwain?**

☐ Na

☐ Do

**49** **A ydych erioed wedi hawlio budd-dal o dan Gynllun Anafiadau Diwydiannol ar gyfer y ddamwain hon?**

- [ ] Na
- [ ] Ydw

Dywedwch wrthym pryd.
DD/MM/BBBB

**50** **A ydych erioed wedi cysylltu â ni am y ddamwain hon yn y gorffennol?**

- [ ] Na
- [ ] Ydw

Dywedwch wrthym pryd.
DD/MM/BBBB

## Rhan 6: Manylion y ddamwain

**51** **Beth oedd y ddamwain a sut y digwyddodd?**
**Beth oeddech yn ei wneud pan ddigwyddodd y ddamwain?**

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.

**52 Disgrifiwch yr anafiadau a achoswyd gan y ddamwain**

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch. Er enghraifft, os gwnaethoch anafu braich, dywedwch wrthym ai eich braich chwith neu'ch braich dde oedd.

**53 Ym mha ffordd mae'r ddamwain wedi effeithio arnoch?**

Rhowch wybod i ni sut mae'r anaf wedi effeithio arnoch ers y ddamwain.

Hefyd, sut mae hyn yn effeithio arnoch ar hyn o bryd?

Rhowch fanylion unrhyw gyflogaeth ers eich damwain.

## Rhan 7: Ceisiadau blaenorol am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

**54** **A ydych erioed wedi gwneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer unrhyw afiechyd diwydiannol arall neu am ddamwain ddiwydiannol?**

☐ Na **Ewch i Rhan 8**

☐ Ydw

### Rhowch fanylion yr hawliadau

### Cais 1

**55** **Os gwnaethoch gais am ddamwain ddiwydiannol o'r blaen, beth oedd dyddiad y ddamwain?**

DD/MM/BBBB

**56** **Os gwnaethoch hawlio am afiechyd diwydiannol o'r blaen, beth yw enw'r afiechyd?**

**57** **Pryd wnaethoch hawlio?**

Os nad ydych yn siŵr, rhowch ddyddiad bras.

DD/MM/BBBB

### Cais 2

**58** **Os gwnaethoch gais am ddamwain ddiwydiannol o'r blaen, beth oedd dyddiad y ddamwain?**

DD/MM/BBBB

**59** **Os gwnaethoch hawlio am afiechyd diwydiannol o'r blaen, beth yw enw'r afiechyd?**

**60** **Pryd wnaethoch hawlio?**

Os nad ydych yn siŵr, rhowch ddyddiad bras.

DD/MM/BBBB

## Rhan 8: Manylion meddygol

### Rhowch enw a chyfeiriad eich Meddyg Teulu (GP)

**61** **Enw'r meddyg teulu**

**62** **Cyfeiriad y meddyg teulu**

Cod post

**63** **Rhif ffôn y meddyg teulu, os ydych yn ei wybod**

Anfonwch unrhyw adroddiadau meddygol neu lythyrau a allai fod gennych i gefnogi eich cais. Gallai'r rhain fod gan eich Ymgynghorydd, Meddyg Teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Dangosir enghreifftiau o'r rhain yn BI100AW Notes.
**Anfonwch gopi gyda'r ffurflen hon.**

**64** **A ydych wedi mynychu ysbyty neu glinig, oherwydd y ddamwain?**

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 72**
- ☐ Ydw

  Dywedwch wrthym am yr ysbyty neu'r clinig rydych wedi bod iddo oherwydd y ddamwain. Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy nag un ysbyty neu glinig, defnyddiwch y gofod yn **Rhan 11: Gwybodaeth arall.**

**65** **Enw'r ysbyty neu glinig**

**66** **Cyfeiriad yr ysbyty neu glinig**

Cod post

**67** **Rhif cyfeirnod neu rif derbyn**

**68** **Adran neu ward**

**69** **Enw'r arbenigydd**

Os ydych yn gwybod eu henw.

**70** **Dyddiadau triniaeth**

DD/MM/BBBB

## Triniaeth 1

O

I

## Triniaeth 2

O

I

## Triniaeth 3

O

I

**71** **A gawsoch pelydr x?**

☐ Na

☐ Do

**72** **Efallai y byddwn yn gofyn i chi fynd am asesiad gyda meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol**

Os oes gennych unrhyw broblemau wrth fynd am asesiad, dywedwch wrthym amdanynt.

Dywedwch wrthym os gallwch deithio mewn tacsi neu os gall ffrind neu berthynas roi lifft i chi.

Rhowch fanylion llawn pam fod angen ymweliad cartref arnoch, ac anfonwch unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennych eisoes i gefnogi'r cais hwn. Peidiwch â gofyn na thalu am dystiolaeth newydd.

**73** **Dywedwch wrthym am unrhyw ddyddiadau ac amseroedd efallai na fyddwch yn gallu mynd am asesiad meddygol yn y 6 mis nesaf.**

Os byddwch yn derbyn unrhyw adroddiadau meddygol pellach neu lythyrau gallwch ddod â'r rhain i'r asesiad.

## Rhan 9: Budd-daliadau a hawliadau eraill

**74** **Ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn cael naill ai Bensiwn Anabledd Rhyfel neu daliad gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog?**

Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol.

Rydym yn defnyddio partner i olygu:

- person rydych yn byw gyda nhw sy'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gydag nhw fel petaech yn bâr priod.

**Chi**

☐ Pensiwn Anabledd Rhyfel

☐ Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog

**Eich partner**

☐ Pensiwn Anabledd Rhyfel

☐ Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog

## Rhan 10: Sut rydym yn eich talu

Gallwn dalu eich Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol:
- bob wythnos ymlaen llaw
- bob 4 wythnos mewn ôl-ddyledion, neu
- bob 13 wythnos mewn ôl-ddyledion.

**75** **Dywedwch wrthym pa mor aml rydych am i ni dalu eich budd-dal**

- ☐ Bob wythnos
- ☐ Bob 4 wythnos
- ☐ Bob 13 wythnos

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r swyddfa Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriadau post y swyddfa a rhif ffôn cyswllt yn y **BI100AW Notes** a anfonwyd atoch gyda'r ffurflen hon.

### Fel arfer byddwn yn talu eich arian i mewn i gyfrif

Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu eich arian yn Swyddfa'r Post. Byddwn yn dweud wrthych pryd y byddwn yn gwneud y taliad cyntaf ac am faint y bydd. Byddwn yn dweud wrthych os bydd y swm a dalwn i mewn i'r cyfrif yn newid.

### Darganfod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni. Gall y cyfriflenni ddangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi'u gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

### Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Mae gennym yr hawl i gymryd yn ôl unrhyw arian a dalwn nad oes gennych hawl iddo. Gall hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system yn gweithio ar gyfer taliadau i mewn i gyfrif.
Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ni, sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian. Weithiau efallai na fyddwn yn gallu newid y swm rydym eisoes wedi'i dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl iddo. **Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.**

### Manylion eich cyfrif

Dywedwch wrthym am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf:
- drwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych yn:
  - cytuno y byddwn yn eich talu i mewn i gyfrif, a
  - deall yr hyn rydym wedi'i ddweud wrthych uchod yn yr adran **Os byddwn yn eich talu gormod o arian**
- os ydych am agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted ag y byddwch yn eu cael
- os nad oes gennych gyfrif, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi
- gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi, neu gyfrif ar y cyd
- gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
  - mae telerau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn,
  - maent yn cytuno i adael i chi ddefnyddio eu cyfrif, a
  - rydych chi'n siŵr y byddant yn defnyddio'ch arian yn y ffordd rydych
- gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd.
- Rhaid i chi roi manylion cyfrif yr undeb credyd i ni. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn
- os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran yr hawlydd, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

## Dywedwch wrthym fanylion eich cyfrif isod

Mae’n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir gan gynnwys rhif rol neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os rhowch y manylion anghywir am eich cyfrif i ni, efallai bydd oedi gyda’ch taliadau neu y gallwch golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu’ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siwr am fanylion y cyfrif, gofynnwch i’r banc neu’r gymdeithas adeiladu.

**76** **Enw deiliad y cyfrif**

Dywedwch wrthym beth yw enw deiliad y cyfrif yn union fel y'i dangosir ar y cerdyn banc neu gyfriflen.

**77** **Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu**

**78** **Cod didoli**

Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft 12-34-56.

**79** **Rhif y cyfrif**

Mae’r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o’r chwith.

**80** **Rhif rol neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu**

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rol neu gyfeirnod. Mae hwn yn cynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 nod o hyd. Os nad ydych yn siwr a oes gan y cyfrif rif rol neu gyfeirnod, gofynnwch i’r gymdeithas adeiladu.

## Rhan 11: Gwybodaeth arall

**81** **Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth arall y credwch y byddai angen i ni ei wybod.**

Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Sicrhewch eich bod yn:

- rhoi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol ar bob dalen o bapur, ac
- yn llofnodi a dyddio bob dalen rydych yn ei defnyddio.

## Rhan 12: Datganiad

Er mwyn sicrhau eich bod yn cael y budd-dal y mae gennych hawl iddo, mae'n bwysig bod y wybodaeth a roddwch yn gywir ac yn gyflawn. Gofynnir i chi lofnodi'r ffurflen hon i ddatgan bod yr atebion a roddwyd gennych yn gywir.

- Rwy’n datgan fy mod yn deall Nodiadau Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, a bod y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais hon yn gywir ac yn gyflawn.
- Rwy’n deall bod yn rhaid i mi roi gwybod yn brydlon am bob newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar fy hawl a, thrwy fethu â gwneud hynny, efallai y byddaf yn agored i gael fy erlyn neu wynebu cosb ariannol.
- Byddaf yn ffonio neu'n ysgrifennu at y swyddfa sy'n talu fy mudd-dal i roi gwybod am newid mewn amgylchiadau.
- Rwy’n deall os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghyflawn neu’n methu â rhoi gwybod am newidiadau yn fy amgylchiadau’n brydlon, y gall fy Mudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol gael ei atal neu ei leihau ac y gellir adennill unrhyw ordaliad o Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Yn ogystal, efallai y byddaf yn cael fy erlyn neu wynebu cosb ariannol.

Dyma fy nghais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Rhan 13: Beth i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi:

- ateb bob cwestiwn sy’n berthnasol i chi
- cwblhau’r Caniatad yn **Rhan 2**
- llofnodi’r Datganiad yn **Rhan 12**
- cynnwys slipiau cyflog sy’n ymwneud a chyfnod eich damwain
- cynnwys copi o’r adroddiad damweiniau neu gofnod Llyfr Damweiniau (os oes gennych hwn)
- cynnwys eich tystiolaeth i gefnogi ymweliad i'r cartref
- cynnwys unrhyw adroddiadau meddygol neu lythyrau a allai fod gennych i gefnogi’ch cais. Gallai fod gan eich Ymgynghorydd, meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

Peidiwch a chael adroddiad meddygol newydd yn arbennig ar gyfer y cais hwn.

## Rhan 14: Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae’r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Mae’n bosibl y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o’n dibenion fel y mae’r gyfraith yn caniatáu i wirio’r wybodaeth a ddarperir gennych a gwella ein gwasanaethau. Mae’n bosibl y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae’r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a’ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o’ch gwybodaeth, chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar **www.gov.uk**